

GWAITH CARTREF

Bwriad y daflen hon yw atgoffa chi fel rhieni o'r hyn sy'n ddisgwyledig o'r plentyn ac ohonoch chithau fel rhieni o safbwynt gwaith cartref.

Diffinir 'GWAITH CARTREF' fel unrhyw waith neu weithgaredd y gofynir i blant ei wneud y tu allan i oriau'r ysgol.

Mae'r Llywodraeth erbyn hyn yn datgan bod gwaith cartref yn gallu "chwarae rhan allweddol i godi safonau cyrhaeddiad". Datgenir ymhellach ei bod yn bwysig bod y gwaith cartref a osodir yn gysylltiedig â'r gwaith a wneir yn yr ysgol a bod y swm a osodir yn adlewyrchu oedran y disgyblion".



Y DISGWYLIADAU:

Bl.1 a 2:

- Gosodir gwaith cartref yn achlysurol i ddisgyblion y cyfnod sylfaen.
- Disgwylir i'r holl ddisgyblion yn yr oedran hwn ddarllen yn rheolaidd.

Bl3,4,5 a 6:

- Gosodir gwaith cartref rheolaidd i'r oedrannau hyn ar **Ddydd Gwener.** Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau a'i ddychwelyd i'r ysgol y **Dydd Llun** canlynol.
- Disgwylir i'r holl ddisgyblion yn yr oedran hwn ddarllen yn rheolaidd.
- Ni ddisgwylir i'r disgyblion hyn dreulio mwy nag 30 munud y noson ar waith cartref.
- Mae'r gwaith cartref naill ai yn ddatblygiad o waith a wneir yn y dosbarth neu yn waith ymchwil ar bwnc newydd ar gyfer gwaith sydd yn mynd i gael ei wneud yn y dosbarth yn y dyfodol agos.

<u>Rôl y rhieni</u>

1.**Mae pob rhiant yn ysgol Abererch wedi arwyddo'r contract rhwng yr ysgol a'r cartref a'r rhiant**.Mae helpu gyda gwaith cartref yn rhan o'r addewid hwn a disgwylir i rieni arwain a rhoi cymorth i' r plentyn pan fo angen.

2.Mae disgwyl y bydd y gwaith cartref yn cael ei orffen i'r **un safon a gwaith y dosbarth**. Dyna pam y bydd angen arweiniad o bosibl ar y plentyn.

3. **Ni** ddisgwylir i rieni wneud y gwaith dros y plentyn.

4.Darperir cyfieithiad o'r cyfarwyddiadau ar gyfer rhieni di-Gymraeg **os** oes angen ym marn yr athrawes.Eglurir unrhyw dermau a allai fod yn ddieithr hefyd.

Mae cwblhau gwaith cartref wythnosol fel hyn yn paratoi y disgyblion yn raddol at yr hyn fydd yn ei wynebu yn ysgol Glan y Môr.

Darperir llyfr ar gyfer Gwaith Cartref i bob plentyn.

Gofynnwn yn garedig am eich cyd-weithrediad i sicrhau fod eich plentyn yn cwblhau y gwaith cartref pob wythnos.